



Tread and Trot Troſian a Throedïo

Monmouthshire / Sir Fynwy

**Whitestone, Whitebrook
and the Wye**

**Whitestone, Gwenffrwd
a'r Afon Gwy**

Try our phone app:
treadandtrottrails.co.uk
Triwch ein rhaglen ffôn

Whitestone, Whitebrook and the Wye

4 hours riding / 5 - 6 hours walking

14 1/2 miles

(inc. 4 mile riverside extension to Redbrook. This fairly flat, level section along the railway line from Whitebrook to Redbrook (18a - 20) is suitable for heavy duty buggies/wheelchairs/pushchairs).

Start:

Whitestone Forestry Commission Car Park,
(Map No 1. Parking suitable for larger trailers and horse boxes)

OR Manor Wood Forestry Commission Car Park
(Nearest Map No. 25. Parking for small horseboxes only)

OR Trellech Common Forestry Commission
Car Park (Map No. 12)

This is one in a series of three trails designed for walkers, horse riders and mountain bikers to explore our fabulous Monmouthshire countryside. Enjoy riverside views beside the Wye and discover hidden heritage along the way.



2

Whitestone, Gwenffrwd ar Afon Gwy

4 awr o ferlota / 5 - 6 awr o gerdded

14 1/2 milltir

(yn cynnwys estyniad o 4 milltir ar hyd glan yr afon i Redbrook). Mae darn cymharol wastad o'r hen reilffordd rhwng Gwenffrwd a Redbrook (18a-20) yn addas ar gyfer bygis cryf/cadeiriau olwyn/cadeiriau gwthio.

Cychwyn:

Maes parcio'r Comisiwn Coedwigaeth yn Whitestone, (Rhif 1 ar y map, parcio addas i drelars mwy o faint a faniau ceffylau)

NEU faes parcio'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghoed Maenor (Rhif map agosaf: 25. Parcio i faniau ceffylau bach yn unig)

NEU faes parcio'r Comisiwn Coedwigaeth ar Gomin Tryleg (Rhif 12 ar y map)

Dyma un o gyfres o dair taith a luniwyd er mwyn i gerddwyr, merlotwyr a beicwyr mynydd ddod i wybod mwy am ardal odidog cefn gwlad Sir Fynwy. Cewch fwynhau golygfeydd o'r afon Gwy a darganfod olion treftadaeth gudd ar hyd y ffordd.



3



Ceir arwyddion ar hyd y llwybr. Cofiwch edrych am y rhain ar hyd y ffordd. Gallwch ddechrau yn rhywle a mynd i'r naill gyfeiriad neu'r llall, er dylai merlotwyr fynd i gyfeiriad clocwedd (fel yn y daflen hon) am fod y rhan o'r ffordd uwchben Whitestone sy'n arwain at Ben y Fan yn serth. Efallai y bydd hi'n haws i feicwyr ddilyn y llwybr i'r cyfeiriad arall er mwyn osgoi'r rhannau mwyaf serth. Mae'r rhifau ar y map yn cyfateb i'r rhifau yn y testun.



The route is waymarked. Look out for these. You can start at any point and go in either direction although we recommend that riders follow the route in a clockwise direction (as detailed in this leaflet) due to the steep road section above Whitebrook leading to Pen-y-fan. Cyclists may find it easier to do this trail in the opposite direction to avoid the steepest sections. Numbers on the map relate to numbers in the text.



A highlight for horse riders is the 2 mile flat bridle path running beside the Wye to the Boat at Redbrook (18 - 20), giving the opportunity for an unrestricted canter in a beautiful setting. You can return on the adjacent old railway track. Please be considerate of other users and pass fishermen at a respectful pace and distance.

This trail links up with the *Tintern Hidden History* trail at Whitelye, making a total route of nearly 26 miles (42 kms).

Un uchafbwynt i ferlotwyr yw'r ddwy filltir o lwybr ceffylau gwastad ar lan yr Afon Gwy i dafarn y Boat yn Redbrook (18 - 20), gan roi cyfle i fynd ar garlam mewn lleoliad prydferth. Gallwch ddychwelyd ar yr hen drac trên gerllaw. Cofiwch fod yn ystyriol o eraill a pharchu pysgotwyr drwy arafu a rhoi digon o le iddynt.

Mae'r llwybr hwn yn ymuno â llwybr Hanes Cudd Tyndyrn yn Whitelye, gan wneud taith o bron 26 milltir (42 cilometr) i gyd.



Whitestone

(1) From the lower car park at Whitestone take the main forestry track up hill, keeping left at the second car parking area and adventure playground. Keep on this track and pass the highway barrier, climbing gently uphill.

The views from here across the Wye Valley have been enjoyed for hundreds of years. Some of the earliest visitors to the area, the Wye Tourists of the 18th and 19th centuries, painted these vistas, whilst the view from this area is said to have inspired William Wordsworth to write:

'Oh Sylvan Wye! Thou wanderer through the woods, How often has my spirit turned to thee!'

Straight after the third bench turn right and follow the path down an old walled track, crossing over another path and the stream above Cleddon Falls, before reaching the metalled road at Cleddon (2).

There is a bench on the right where you can sit and enjoy the sound of the 'Shoots' if it has rained recently! This shady woodland, home to many rare moisture loving plants, is a Site of Special Scientific Interest.

(1) O'r maes parcio isaf yn Whitestone, dilynwch y prif lwybr coedwigaeth i fyny'r allt, gan gadw i'r chwith yn yr ail faes parcio a'r maes chwarae antur. Dilynwch y llwybr heibio'r rhwystr rhyngoch a'r briffordd, gan ddringo'n raddol.

Mae pobl wedi bod yn mwynhau'r golygfeydd hyn ar draws Dyffryn Gwy ers cannoedd o flynyddoedd. Cawsant eu paentio gan rai o'r ymwelwyr cyntaf â'r ardal, Twristiaid Gwy y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a dywedir mai'r olygfa hon a ysbrydolodd William Wordsworth i gyfansoddi:

'Oh Sylvan Wye! Thou wanderer through the woods, How often has my spirit turned to thee!'



The view from Llandogo looking up towards Cleddon Shoots in the 19th century.

Yr olygfa o Laneuddogwy i fyny at ddyfroedd Cleddon yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.



Go straight across the road (signposted Pen-y-fan and Wye Valley Walk) along a track between Orchard Cottage on the left and Falls Cottage on the right, and into Cuckoo Wood.

Look out for pudding stone here. A type of sandstone, full of quartz pebbles, this stone has been used for centuries to build the distinctive stone walls which line these ancient tracks and field boundaries.

Continue straight on up a steady hill (ignoring path to right) until the track forks around a small triangle of land. (3) (There is a picnic bench to the left.) Take the right fork and immediately go straight across (second on your right) along a level track which is soon bounded on the right by an avenue of Scots pine and beech trees.

This is Duchess Ride. Historical links with the Duke of Beaufort, who owned large tracts of land locally, are reflected in many names. This avenue of Scots pines is said to have been a favourite carriage ride of the Duchess of Beaufort. There is a path on the right which leads to a bench and view point, giving one of the best views in the Wye Valley.

Yn syth ar ôl y drydedd fainc, trowch i'r dde a dilyn y llwybr ar hyd hen drac rhwng waliau gan groesi llwybr arall a'r nant uwchben Rhaeadr Cleddon, cyn dod i'r ffordd darmac yn Cleddon (2).

Mae mainc ar y dde lle gallwch fwynhau sŵn y lli os yw hi wedi bwrw glaw'n ddiweddar. Mae'r coetir cysgodol, sy'n gynefin i lawer o blanhigion prin hoff o leithder, yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Ewch yn syth ar draws y ffordd (i gyfeiriad Pen y Fan a Llwybr Dyffryn Gwy) ar hyd llwybr rhwng Orchard Cottage ar y chwith a Falls Cottage ar y dde i Goed y Gog.

Edrychwch am lobynfaen, sef math o dywodfaen, sy'n llawn cerrig gwynion. Ers canrifoedd, fe'i defnyddiwyd i adeiladu'r waliau cerrig unigryw ar ochrau'r llwybrau hynafol hyn, a ffiniau caeau.

Ewch yn syth ymlaen gan ddringo'n gyson (ac anwybyddu'r llwybr ar y dde) nes cyrraedd fforch yn y llwybr o gwmpas triongl bach o dir. (3) (Mae mainc bicnic ar y chwith). Dilynwch y fforch ar y dde ac ewch yn syth ymlaen ar draws (ail ar y dde) ar hyd llwybr gwastad gyda rhes o binwydd yr Alban a choed ffawydd ar y dde.

Dyma Duchess Ride. Mae cysylltiadau hanesyddol â Dug Beaufort, perchennog darnau mawr o dir yn lleol, i'w gweld mewn llawer o enwau. Dywedir mai'r lôn hon o binwydd oedd hoff rodfa Duges Beaufort yn ei choets. Ceir llwybr ar y dde sy'n arwain at fainc a golygfan sydd ag un o'r golygfeydd gorau yn Nyffryn Gwy.

Keep straight on until you reach a gate (4). Go through the gate and a second gate onto a metalled lane. Keep on this lane and take the first turn on your left (5).

At the 'T' junction (6) turn left again. Keep straight on as the road peters out into a forest track through Cuckoo Wood and stay on this track, ignoring side tracks off until reaching a junction with another wide track.

Go straight across heading towards a gate (7). At the gate turn right along a grassy path.

Wild Welsh Mountain ponies now graze this heathland restoration area, which is fenced off on your left. In late summer, once the whimberries are over purple heather and yellow gorse cover this area. (Should you need water there are two ponds within the heathland area.)

Continue around the outside of the fence line until the track forks (8). Take the right hand fork into the dark wood and keep on this track, ignoring any side paths until you reach the metalled road over Beacon Hill (9).

Ewch yn syth ymlaen nes dod at glwyd (4). Ewch drwyddi, ac un arall wedyn, i ffordd darmac. Cerddwch ar hyd y lôn a chymryd y troad cyntaf ar y chwith (5).

Yn y gyffordd (6) trowch i'r chwith eto. Ewch yn syth ymlaen wrth i'r ffordd droi'n llwybr coedwigaeth drwy Goed y Gog ac arhoswch ar y llwybr hwn, gan anwybyddu llwybrau oddi arno nes dod at gyffordd â llwybr llydan arall.

Ewch yn syth ar draws tuag at glwyd (7). Wrth y glwyd trowch i'r dde ar hyd llwybr glaswellt.

Bellach, mae merlod mynydd Cymreig gwyllt yn pori'r rhostir adferedig tu ôl i'r ffens ar y chwith. Ar derfyn haf, ar ôl i'r llus duon bach orffen, mae grug porffor ac eithin melyn yn garped. (Os byddwch angen dŵr mae dau bwl dŵr ar y rhostir.)

Ewch o gwmpas ochr allan y ffens nes dod at fforch yn y llwybr (8). Ewch i'r dde i mewn i'r goedwig dywyll a dilyn y llwybr hwn gan anwybyddu unrhyw lwybrau oddi arno nes cyrraedd y ffordd darmac dros Beacon Hill (9).



10



*Welsh Mountain ponies on Beacon Hill.
Merlod mynydd Cymreig ar Beacon Hill.*

11

The Skirrid, or Holy Mountain, at 1595 feet high, is easy to spot on a clear day.

Mae Ysgyryd Fawr, sy'n 1595 troedfedd o uchder, yn hawdd i'w weld ar ddiwrnod clir.

On a clear day one of the best views around is from the top of Beacon Hill (just a short detour along the road to your left), from where you can see Hay Bluff, the Sugar Loaf, Skirrid and even Pen-y-Fan, the highest mountain in south Wales.

Turn right downhill. At the 'T' junction turn left for a short distance until you reach a bridleway sign on the right into Trellech Common (10).

Take this path through the gate and keep straight on past a pond on the left, ignoring any tracks on either side until you reach the main forest track (11).

Turn left and stay on this track until you reach the car park at Trellech Common (12).

Turn right just before the forestry barrier into the car park, down a beech-lined path. Go straight across when you meet the forestry track and head on downhill through the trees.

Keep straight on, ignoring a path crossing the track. Keep left/going straight on downhill when a wide forestry track joins from the right. When the main forestry track bears sharp left, keep right going straight on



Ar ddiwrnod clir, ceir un o'r golygfeydd gorau yn yr ardal o ben Beacon Hill (ychydig ar hyd y ffordd i'r chwith), lle gallwch weld Penybegwn, Pen-y-fâl, Ysgyryd Fawr a hyd yn oed Pen y Fan, mynydd uchaf y de.

Trowch i'r dde i lawr yr allt. Trowch i'r chwith yn y gyffordd, nes dod at arwydd llwybr ceffylau ar y dde i dir comin Tryleg (10).

Dilynwch y llwybr drwy'r glwyd ac yn syth ymlaen heibio i lyn bach ar y chwith, gan anwybyddu unrhyw lwybrau oddi arno nes cyrraedd y prif lwybr coedwigaeth (11).

Trowch i'r chwith ac ymlaen ar hyd y llwybr hwn nes cyrraedd y maes parcio ar dir comin Tryleg (12).

Trowch i'r dde i'r maes parcio ychydig cyn y rhwystr coedwigaeth, ar hyd llwybr drwy goed ffawydd. Ewch yn syth ar draws y llwybr coedwigaeth ac i lawr drwy'r coed.


Ewch yn syth ymlaen, gan anwybyddu llwybr arall sy'n croesi. Cadwch i'r chwith, gan fynd yn syth i lawr pan ddowch at lwybr coedwigaeth llydan ar y dde. Pan ddowch at droad sydyn i'r chwith ar y prif lwybr coedwigaeth, cadwch i'r dde gan fynd yn syth i lawr a thros nant fach nes cyrraedd y ffordd darmac (13).

Ewch yn syth ymlaen ac ar hyd yr hen ffordd, drwy ddwy set o folardiau, a throï i'r dde ar y gwaelod i ffordd Gwenffrwd (14).

downhill and over a little stream until reaching the metalled road (13).

Go straight across and head down the old road, through two sets of bollards, turning right at the bottom onto the Whitebrook road (14).

This is the Whitebrook Valley, a tranquil place with a surprising history. This was once a thriving industrial valley; first wire, and later paper was produced here. From 1607, for over a hundred years, the rushing waters of the Whitebrook powered waterwheels which drove the machinery of several wire drawing mills.



Detail from an estate map of 1787 of Bigswear and Lindors Farm.

Rhan o fap ystad o 1787 o Bigswear a Lindors Farm

(Gloucestershire Archives / Archifau Swydd Gaerloyw)



New Mills – one of the paper mills
New Mills – un o'r melinau papur

Dyma Ddyffryn Gwenffrwd, man tawel ag iddo hanes rhyfeddol. Unwaith, roedd y dyffryn yn fwrlwm diwydiannol: cynhyrchwyd gwifrau yma'n gyntaf, wedyn papur. O 1607 ymlaen, am dros ganrif, pwerai dyfroedd cyflym afon Gwenffrwd yr olwynion dŵr a yrrai beiriant sawl melin wifrau.



Remains of waterwheel at New Mills.
Gweddillion olwyn ddŵr yn New Mills.


(Stan Coates Archive, Monmouth Museum / Archif Stan Coates, Amgueddfa Trefynwy)



An unprinted bank note from Whitebrook. The watermark reads 'Bristol Exchange Bank'.
 Dyma arian papur heb ei argraffu o Gwenffrwd. Y dyfrnod yw 'Bristol Exchange Bank'.
 (Nelson Museum and Local History Centre, Monmouth / Amgueddfa a Chanolfan Hanes Lleol Nelson, Trefynwy)



Inside an 18th century paper mill.
 Y tu mewn i felin bapur yn y ddeunawfed ganrif.
 (Diderot's Encyclopedie, 1751)



Wages account book from one of the paper mills. Rag pickers had to sort the dirty rags before they were soaked in water, a job mostly carried out by elderly men and women. Llyfr cyflogau un o'r melinau papur. Gwaith y casglwyr rhacs oedd didoli'r carpion cyn eu trochi mewn dŵr, gwaith a wnaed yn bennaf gan ddynion a menywod hŷn.
 (Gwent Archives / Archifau Gwent)

By 1760 a new industry had replaced wire manufacture - paper making. The paper made here was used for £5 notes, as well as printing, cartridge, writing and brown wrapping papers. As the quality of British-made paper improved in the 1770s exports to Europe rose and by 1793 there were 5 or 6 paper mills along the Valley. Until the early 1800s paper was made by hand in single sheets. Sunnyside Mill had huge pans for boiling up Esparto grass. This was imported from Spain as a substitute for the rags which had traditionally been used to make paper. Later large paper making machines were introduced. Paper making continued here until about 1880 when the last of the mills closed.

Erbyn 1760, roedd diwydiant newydd, cynhyrchu papur, wedi disodli'r diwydiant gwifrau. Defnyddid y papur a wnaed yma i wneud papurau £5, yn ogystal â phapur argraffu, papur cetris, papur ysgrifennu a phapur lapio brown. Wrth i ansawdd papur a wnaed ym Mhrydain wella yn y 1770au, cynyddodd allforion i Ewrop ac erbyn 1793 roedd 5 neu 6 o felinau papur yn y dyffryn. Tan ddechrau'r 1800au gwnaed papur â llaw mewn dalennau unigol. Câi hen garpion eu rhwygo a'u curo'n fwydion mewn dŵr i wahanu'r fffibrau. Yn ddiweddarach, defnyddiwyd peiriannau mawr i wneud papur. Parhaodd y gwaith tan oddeutu 1880 pan gaeodd yr olaf o'r melinau.


As you follow the Whitebrook down to the Wye you'll pass grand houses built by the mill owners, the ruins of several paper mills, and large ponds which stored the water needed to power the mills. Many of the cottages were built to house some of the six hundred or so men and women who worked here in the nineteenth century. Tradition has it that the women and girls who worked in the mills sang as they cut the rags into small pieces with scissors.

Continue down the valley for half a mile until you see a sign for Whitebrook off to the left (15). Take this path over the Whitebrook and carry on downhill.

Wrth i chi ddilyn afon Gwenffrwd i lawr at y Gwy, byddwch yn mynd heibio i dai crand a adeiladwyd gan berchnogion y melinau, adfeilion sawl melin bapur, a phyllau dŵr mawr i bweru'r melinau. Adeiladwyd llawer o'r bythynnod yn gartrefi i rai o'r chwe chant a mwy o ddynion a menywod a weithiai yma yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn ôl y sôn, arferai'r menywod a'r merched ganu wrth dorri'r carpion â'u sisyrnau.

Ewch ymlaen i lawr y dyffryn am hanner milltir nes dod at arwydd Whitebrook i'r chwith (15). Dilynwch y llwybr hwn dros afon Gwenffrwd ac ymlaen i lawr yr allt.

Drwy'r coed, mae modd gweld simdde fawr, dyddiedig 1870, a rhan o felin Sunnyside lle'r oedd pedyll mawr ar gyfer berwi glaswellt Esparto. Câi hwn ei fewnforio o Sbaen yn lle'r carpion a ddefnyddid yn draddodiadol i wneud papur.



Old Paper Mills Whitebrook, c. 1902
Hen felinau papur Gwenffrwd, tua 1902
(Neil Parkhouse Collection / Casgliad Neil Parkhouse)



Can you spot this chimney, dated 1870, through the trees?
Allwch chi weld y simdde hon, dyddiedig 1870, drwy'r coed?

(16) Pass to the left of some cottages, with the brook and village hall on your right.

Back in the 1930s the next old cottage was a youth hostel; you could only stay there if you arrived on foot or bicycle and between Easter and October at least 1200 people did! During WWII the youth hostel was requisitioned for evacuees.

Keep on past these cottages, until the path bears right over the brook and onto the road. Don't go right, but take the track to the left uphill, signposted Tregagle (17). A steep track joins on the left, but stay on this path through the lovely beech and oak trees of Hale Wood. Where the path forks take the right hand route downhill to meet the gravelled track running along the river bank (18).

Can you imagine riding along in a carriage as the steam train chugged along this most scenic of railway lines? The path now follows the route of the Wye Valley Railway which ran between Monmouth and Chepstow, from 1876 until its closure in 1959. For some, the arrival of the railway meant the end of a way of life. The trowmen and mariners who had used the River Wye as a watery highway through the Valley couldn't compete.

Looking up the Whitebrook Valley towards the old Youth Hostel.

I fyny Dyffryn Gwerffrwd tuag at yr hen hostel ieuencid.

(Dean Heritage Museum Trust / Ymddiriedolaeth Amgueddfa Dreftadaeth Dean)



(16) Ewch heibio ochr chwith y bythynnod, gyda'r nant a neuadd y pentref ar y dde.

Nôl yn y 1930au, hostel ieuencid oedd y bwthyn nesaf, dim ond cerddwyr neu feicwyr a gâi aros yno, a rhwng y Pasg a mis Hydref, roedd o leiaf 1200 o bobl

yn gwneud hynny. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, defnyddiwyd yr hostel ieuencid ar gyfer faciws.

Ewch ymlaen heibio i'r bythynnod, nes i'r llwybr wro i'r dde dros y nant ac i'r ffordd. Peidiwch â mynd i'r dde, ond dilynwch y llwybr i fyny i'r chwith i gyfeiriad Tregagle (17). Fe welwch drac serth oddi ar y llwybr i'r chwith, ond arhoswch ar y llwybr drwy goed ffawydd a derw hyfryd Coed Hale. Pan ddowch at ffordd yn y llwybr, ewch i lawr i'r dde at y llwybr graeanog ar hyd glan yr afon (18).

A allwch chi ddychmygu teithio'r ffordd yma wrth i'r trên stêm bwffian ar hyd y rheilffordd hardd? Yma mae'r llwybr yn dilyn rheilffordd Dyffryn Gwy a arferai redeg rhwng Trefynwy a Chas-gwent rhwng 1875 a 1959. I rai, roedd dyfodiad y rheilffordd yn ddiwedd ar ffordd o fyw. Ni allai'r llongwyr a oedd wedi defnyddio'r afon Gwy fel priffordd ddŵr drwy'r dyffryn gystadlu â'r rheilffordd.

At this point (18) you can make a detour to your left along the old railway line (passing a lovely sculpted salmon bench) or bridle path beside the river as far as the Boat Inn at Redbrook (20) and enjoy a drink beside the river before retracing your steps.

You won't have to look far before you find unfinished or broken circular stones, abandoned more than 100 years ago. Some finished stones quite literally 'missed the boat' as they were loaded!

Ni fydd raid edrych ymhell cyn gweld cylch o gerrig crwn anorffenedig neu doredig, a adawyd yma dros gan mlynedd yn ôl. Methu'r cwch, yn llythrennol, fu hanes rhai o'r cerrig gorffenedig wrth gael eu llwytho!



Outcrops of a hard millstone grit on the hillside above the river (known locally as puddingstone), turned these woods (19) into a maze of quarries, where millstones were hewn out of the rock. Stones were rolled down the hill to be loaded into trows and transported along the river to customers as far away as France.

When the Wye Valley Railway was built in 1876 a tunnel was constructed to allow access from the quarry to the loading point on the river bank. Many local men were stone masons and quarrymen, combining this with working trows on the river, or jobs in the tin works and brewery at Redbrook.

Yma (18) gallwch ddargyfeirio i'r chwith ar hyd yr hen reilffordd (gan basio mainc â cherflun eog trawiadol arni) neu ddilyn llwybr ceffyl ar lan yr afon i'r Boat Inn yn Gwenffrwd (20) a mwynhau llymaid ger yr afon cyn dychwelyd yr un ffordd.

Trodd y brigadau o rut melinfaen ar y llechwedd uwchben yr afon (sef puddingstone yn lleol) y coed hyn (19) yn ddrysfâ o chwareli, lle câi meini melinau eu naddu o'r graig. Câl'r cerrig eu rhoio i lawr y bryn i'w llwytho i gychod a'u cludo ar hyd yr afon i gwsmeriaid mor bell i ffwrdd â Ffrainc.

Pan adeiladwyd Rheilffordd Dyffryn Gwy ym 1876, codwyd twnnel i fynd o'r chwarel i'r man llwytho ar lan yr afon. Roedd llawer o ddynion lleol yn seiri maen a chwarelwyr yn ogystal â gweithio ar yr afon, neu yn y gweithfeydd tun a'r bragdy yn Redbrook.

Like Whitebrook, Redbrook was a heavily industrialised village too. Fel Gwenffrwd, roedd Redbrook hefyd yn bentref diwydiannol iawn.

(Dean Heritage Museum Trust / Ymddiriedolaeth Amgueddfa Dreftadaeth Dean)



Return along the river bank back to map point (17). Turn left and after a short distance turn right, where two lanes join the road, just before the phone box. Take the right hand lane which runs uphill alongside the old pub, The Bell.

Look carefully and you'll find the sign which says Herbert Probert was licensed to sell spirits here. Edrychwch yn ofalus ac fe welwch yr arwydd sy'n dweud fod Herbert Probert wedi'i drwyddedu i werthu gwirodydd yma.



24



Two paper warehouses beside the river (far left) c. 1925. Raw materials were unloaded here and finished paper loaded onto trows bound for Bristol.

Dau warws papur yng nghei Gwenffrwd (pellaf ar y chwith), tua 1925. Byddai deunyddiau crai'n cael eu dadlwytho a phapur yn cael ei lwytho ar y cychod i'w cludo i Fryste.

(Neil Parkhouse Collection / Casgliad Neil Parkhouse)

Dychwelwch ar hyd glan yr afon i bwynt (17) ar y map. Trowch i'r chwith ac ymhen ychydig trowch i'r dde, lle mae dwy lôn yn ymuno â'r ffordd, cyn y blwch ffôn. Trowch i'r lôn ar y dde sy'n mynd i fyny gydag ochr yr hen dafarn, The Bell.

25

Keep left where the road forks, with the old Baptist chapel (21) on your left and continue up this very steep section of lane. Just before the house keep left, taking the steep track to the left of the house. (Riders and cyclists may have to dismount! Please be considerate of other users and allow others to pass.)

This is just one of many green lanes in this area, traditional routes which connected residents of The Narth and Pen-y-fan with the river, with jobs in the wire and paper mills, with the church and chapel in Whitebrook, and later with the railway station at Whitebrook Holt.

(22) At the top of this track turn left. Before long the track becomes a tarmac road, bearing to the right and uphill past a cottage on the right.

This is another steep section so take a breather and enjoy the view a little further up on the left, looking out over the river and towards The Florence, an old hunting lodge in England!




Whitebrook and District Choir Outing c. 1913.
Trip Côr Gwenffrwd a'r Cylch tua 1913.
(Roger Brown)

Cadwch i'r chwith lle mae fforch yn y ffordd, gyda hen gapel y Bedyddwyr (21) ar y chwith, ac ymlaen i fyny'r lôn serth. Ychydig cyn y tŷ, cadwch i'r chwith gan ddilyn y llwybr serth i'r chwith heibio'r tŷ. (Efallai y bydd angen i ferlotwyr a beicwyr ddod oddi ar geffylau a beiciau! Byddwch yn ystyriol o eraill sy'n defnyddio'r llwybr a gadewch i bobl eich pasio.)

Dyma un o sawl lôn werdd yn yr ardal – llwybrau traddodiadol a gysylltai breswylwyr y Narth a Phen y Fan â'r afon, â gwaith yn y melinau gwifrau a phapur, â'r capel a'r eglwys yn Gwenffrwd, ac yn ddiweddarach, â'r rheilffordd yn Whitebrook Halt.

Looking up the Whitebrook Valley.
I fyny Dyffryn Gwenffrwd.
(Dean Heritage Museum Trust /
Ymddiriedolaeth Amgueddfa Dreftadaeth Dean)



(22) Ar ben ucha'r llwybr, trowch i'r chwith. Cyn hir, mae'r llwybr yn troi'n lôn darmac, gan wyro i'r dde

ac i fyny heibio i fwthyn ar y dde.

Dyma ran serth arall felly cymerwch hoe i fwynhau'r olygfa ychydig ymhellach i fyny ar y chwith, gan edrych allan dros yr afon a thuag at The Florence, hen gaban hela yn Lloegr!

There's one more steep section along the lane before you reach the open grassed area at Pen-y-fan, known locally as 'The Green' (23).

After the climb there's a very welcome bench on the right, from where you can take in the view towards Bigsweir Bridge. Behind the bench and to the right you can walk between the two houses on the right of the Green. This takes you to the maypole which traditionally, on May Day, was danced around.




Retrace your steps to 'The Green' and head for a mounting block in the middle of the grassed area.

This was well-used in the past, providing an easy place to remount after the steep climb up from Whitebrook. **Keep to the left of the mounting block and just before the roads join take the lane on your left (also marked Wye Valley Walk).** Apple and pear orchards used to hug the hillsides all around here and the small barn (24) on the right used to house a cider press.

Mae un rhan serth arall ar y lôn cyn i chi gyrraedd y man gwyrdd agored ym Mhen y Fan, sef 'The Green' yn lleol (23).

Ar ôl dringo, mae mainc gyfleus ar y dde, lle gallwch edrych i gyfeiriad Pont Bigsweir. Y tu ôl i'r fainc ac i'r dde gallwch gerdded rhwng y ddau dŷ ar ochr dde'r man gwyrdd. Fe ddowch at bawl haf Pen y Fan y byddai pobl yn arfer dawnsio o'i gwmpas ar Galan Mai.



Bigsweir Bridge was built in 1827 as part of the new road through the Wye Valley linking Chepstow and Monmouth. Adeiladwyd Pont Bigsweir ym 1827 fel rhan o'r ffordd newydd drwy Ddyffryn Gwy a gysylltai Gas-gwent a Threfynwy. (Chepstow Museum / Amgueddfa Cas-gwent)

Dilynwch y llwybr yn ôl i'r man gwyrdd ac at yr esgynfaen yn y canol.

*Roedd cryn ddefnydd ar hwn yn y gorffennol fel lle hawdd i ail-esgyn ar eich ceffyl ar ôl dringo'r allt serth o Gwenffrwd. **Ewch heibio i ochr chwith yr esgynfaen ac ychydig cyn i'r ffyrdd ymuno, trowch i'r lôn ar y chwith (gydag arwydd Llwybr Dyffryn Gwy).** Arferai perllannau afalau a gellyg orchuddio'r llechweddau hyn ac roedd gwasg seidr yn yr ysgubor fach (24) ar y dde.*

Continue along this track until the path forks. Take the right hand fork, ignore the track on the left and keep right up an enclosed track until you reach a metalled road (25). Turn left and continue along this road until reaching the gate where the road becomes a path leading to Duchess Ride (5).

From here you can re-trace your steps along the forestry track and paths back to Cleddon and Whitestone car park (1).

To link with Tintern's Hidden History trail take the path through Creigiau Wood (on the opposite side of the road from the car park), to join the route at Whitelye.




For a black and white print version of this leaflet please contact adventa.
www.adventa.org.uk

Ewch yn eich blaen nes dod at fforch yn y llwybr. Ewch i'r dde, gan anwybyddu'r llwybr ar y chwith a chadwch i'r dde ar hyd llwybr caeedig nes dod at ffordd darmac (25). Trowch i'r chwith a'i dilyn nes cyrraedd y glwyd lle mae'r ffordd yn troi'n llwybr at Duchess Ride (5).

Oddi yma gallwch ddilyn y llwybr yn ôl ar hyd y llwybrau coedwigaeth i Cleddon a maes parcio Whitestone (1).

I gysylltu â llwybr Hanes Cudd Tyndyrn dilynwch y llwybr drwy Goed Creigiau (ochr draw i'r ffordd o'r maes parcio), i ymuno â'r llwybr i Whitelye.

Am fersiwn print du a gwyn o'r daflen hon cysylltwch os gwelwch yn dda â adventa.
www.adventa.org.uk



The Countryside Code: Respect - Protect - Enjoy

- Be Safe - plan ahead and follow any signs
- Leave gates and property as you find them
- Protect plants and animals, and take your litter home
- Keep dogs under close control
- Consider other people
- This route is for walkers, cyclists and horse riders, please show consideration for other users.

Cod Cefn Gwlad: Darchu - Diogelu - Mwynhau

- Byddwch yn ddiogel – cynlluniwch o flaen llaw a dilynwch unrhyw arwyddion
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych yn eu cael nhw
- Diogelwch fywyd gwylt ac ewch â'ch sbwriel gartref
- Cadwch eich ci dan reolaeth
- Byddwch yn ystyriol o bobl eraill
- Mae'r llwybr hwn ar gyfer cerddwyr, beicwyr a marchogwyr, felly byddwch yn ystyriol o ddefnyddwyr eraill.

Additional Information

- Please ride with care on road sections, wear high visibility aids, and acknowledge consideration shown by drivers of motor vehicles.
- Keep to the line of bridleways as shown when crossing farmland and remember hooves can damage surfaces especially during winter months.
- There is limited water available along the route for horses.
- Landmarks and conditions change over time; use an OS map, compass or GPS. Mobile phone coverage may not be reliable along all sections of this trail.

Gwybodaeth Ychwanegol

- Cymerwch ofal wrth farchogaeth ar y ffordd, gwisgwch rywbeth llachar, a chofiwch gydnabod gyrwyr ystyriol.
- Cadwch at y llwybrau marchogaeth wrth goesi tir fferm, a chofiwch y gall carnau ddifrodi arwynebau yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf.
- Does dim llawer o ddŵr ar gael i geffylau ar hyd y llwybr.
- Mae tirnodau ac amodau yn newid gydag amser; defnyddiwch fap OS, cwmpawd neu GPS. Nid yw derbynaiad ffonau symudol yn ddibynadwy ym mhobman ar y llwybr.

Visitor Information

For details of accommodation see:
www.visitwyvalley.com

For details of cycle hire and repair, horse stabling, grazing, farriers, vets and much more see
www.treadandtrottrails.co.uk

For help in planning your visit call: Monmouth Visitor Information at the Shire Hall on 01600 775257.

For details of public transport visit:
www.traveline-cymru.info

Gwybodaeth i ymwelwyr

I gael manylion am lety ewch i: www.visitwyvalley.com
I gael manylion am hurio a thrwsio beiciau, stablau ceffylau, tiroedd pori, ffariers, milfeddygon a llawer mwy, ewch i www.treadandtrottrails.co.uk

Am help i gynllunio eich ymweliad ffoniwch: Canolfan Groeso Trefynwy yn Neuadd y Sir ar 01600 775257.

Am fanylion trafniadaeth gyhoeddus ewch i:
www.traveline-cymru.info

Parking

There is parking for vehicles and trailers at Whitestone Forestry Commission car park (Grid Reference 524 028). Closest route marker (**1**)

Parking is also available for vehicles and trailers at Vicars Allotment Forestry Commission car park (Grid Reference 507063). Closest route marker (**12**) and Manor Wood Forestry Commission car park (Grid Reference 528058). Nearest route marker (**25**)

Please ensure trailers and boxes are securely and considerately parked.

Parcio

Mae lle parcio ar gyfer cerbydau a threlars ym maes parcio'r Comisiwn Coedwigaeth yn Whitestone (Cyfeirnod Grid 524 028). Marciwr llwybr agosaf (**1**).

Mae lle parcio ar gael hefyd i gerbydau a threlars ym maes parcio'r Comisiwn Coedwigaeth yn Vicars Allotment (Cyfeirnod Grid 507063). Marciwr llwybr agosaf (**12**) a maes parcio'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghoed Maenor (Cyfeirnod Grid 528058) (**25**).

Gwnewch yn siŵr eich bod yn parcio trelars a faniau ceffylau yn ddiogel ac yn ystyriol.

Disclaimer

Whilst all due care was taken in the preparation of the information contained in this leaflet, neither adventa, Monmouthshire County Council, nor their agents or servants accept any responsibility for any inaccuracies which might occur.

This leaflet has been funded by adventa, Monmouthshire's Rural Development Programme funded by the European Agricultural Fund for Rural Development, the Welsh Assembly Government and Monmouthshire County Council. For more information visit www.adventa.org.uk.

Ymwadiad

Gwnaed pob ymdrech i baratoi'r wybodaeth yn y daflen hon yn ofalus. Nid yw adventa, Cyngor Sir Fynwy, na'u hasiantau na'r sawl sy'n gweithio iddynt yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw wallau a allai ymddangos.

Noddwyd y daflen hon gan adventa, Rhaglen Datblygu Gwledig Sir Fynwy a ariannir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Fynwy. Am ragor o wybodaeth ewch i www.adventa.org.uk.



Credits:

Photos reproduced courtesy of Nelson Museum and Local History Centre Monmouth, Gage Library, Dean Heritage Museum Trust, Roger Brown, Neil Parkhouse Collection, Chepstow Museum, Gwent Archives, Monmouthshire County Council, Harry Williams, Gloucestershire Archives.

Clodrestr:

Atgynhyrchwyd y lluniau drwy garedigrwydd Amgueddfa a Chanolfan Hanes Lleol Nelson, Trefynwy, Llyfrgell Gage, Canolfan Treftadaeth Dean, Roger Brown, Casgliad Neil Parkhouse, Amgueddfa Cas-gwent. Archifau Gwent, Cyngor Sir Fynwy, Harry Williams, Archifau Swydd Gaerloyw.

© Published by adventa and Monmouthshire County Council 2011

© Cyhoeddwyd gan adventa a Chyngor Sir Fynwy 2011



Monmouthshire / Sir Fynwy

Whitestone, Whitebrook and the Wye

Whitestone, Gwenffrwd a'r Afon Gwy

Try our phone app:
treadandtrottrails.co.uk
Triwch ein rhaglen ffôn